

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Grantiau Bach – Effeithlonrwydd

# Datgan Diddordeb
# Canllaw Sut i Gwblhau

# Cynnwys


**2** Tudalen Mewngofnodi i Borth y Llywodraeth

**3** Taliadau Gwledig Cymru Ar-lein – Hafan

**3** Tudalen Ffurflenni

**4** Datgan Diddordeb mewn Grantiau Bach – Effeithlonrwydd: Sut i Ddechrau

**5** Cwestiynau Pwy sy’n Gymwys

**7** Dewiswch Eitemau

**10** Tudalen Gyflwyno – Camgymeriadau, Gwybodaeth a Chrynodeb

**11** Tudalen Gyflwyno – Datganiadau ac Ymrwymiadau

**12** Tudalen Gyflwyno – Cyflwyno



OGL © Hawlfraint y Goron 2022


WG45143 ISBN digidol: **978-1-80364-160-7**

# Datgan Diddordeb mewn Grantiau Bach – Effeithlonrwydd: Canllaw Sut i Gwblhau

Bydd y canllaw hwn yn rhoi cyfarwyddiadau manwl, cam wrth gam, ynghylch sut i lenwi eich Ffurflen Datgan Diddordeb ar gyfer Grantiau Bach – Effeithlonrwydd.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu'r canllaw yn y Gymraeg a'r Saesneg, yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru.

Os ydych yn cael trafferth neu os nad ydych yn gallu gweld ein gwefan, ffoniwch Ddesg Gymorth RPW Ar-lein ar 0300 062 5004.


## Yn Dilyn Cyflwyno Llwyddiannus

Bydd crynodeb o'ch Ffurflen Datgan Diddordeb ar gyfer Grantiau Bach – Effeithlonrwydd yn cael ei ychwanegu at dudalen 'Negeseuon' eich cyfrif RPW Ar-lein dan y teitl "Dogfennau wedi dod i law Taliadau Gwledig Cymru". Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwirio'r wybodaeth a gyflwynwyd yn drylwyr. Os oes unrhyw wybodaeth yn anghywir, anfonwch ateb i'r Neges yn rhoi manylion eich pryderon. Dylech wneud hyn cyn gynted ag y bo modd ar ôl dod o hyd i wybodaeth anghywir.

Os ydych yn cael trafferth neu os nad ydych yn gallu gweld ein gwefan, ffoniwch Ddesg Gymorth RPW Ar-lein ar 0300 062 5004.

## Tudalen Mewngofnodi i Borth y Llywodraeth

Mewngofnodwch i’ch Cyfrif RPW Ar-lein – nodwch eich Enw Defnyddiwr a’ch Cyfrinair yn y blychau a chliciwch ar y botwm **Mewngofnodi**.





Os ydych yn cael trafferth neu os nad ydych yn gallu mynd i’ch cyfrif ar-lein, ffoniwch Desg Gymorth RPW Ar-lein ar 0300 062 5004.

Ar ôl i chi fewngofnodi i’ch cyfrif ar-lein fe welwch dudalen ‘Hafan’ RPW Ar-lein.

## Taliadau Gwledig Cymru Ar-lein – Hafan

Er mwyn gweld y ffurflen Datgan Diddordeb ar gyfer Grantiau Bach – Effeithlonrwydd, cliciwch ar y tab ‘Ffurflenni’ ar sgrin hafan RPW Ar-lein, fel a ddangosir isod:





I newid yr Iaith ar unrhyw amser cliciwch y botwm ar y bar ar gornel dde uchaf Gwybodaeth RPW Ar-lein. Bydd hyn yn caniatáu ichi ddewis iaith eich Ffurflen Datgan Diddordeb ar gyfer Grantiau Bach – Effeithlonrwydd .

## Tudalen Ffurflenni


Unwaith eich bod wedi dewis y tab ‘Ffurflenni’ cewch weld y Ffurflenni sydd ar gael i chi eu llenwi.

Dewiswch y Datganiad Diddordeb ar gyfer Grantiau Bach – Effeithlonrwydd o’r rhestr.




## Sut i Ddechrau

Unwaith eich bod wedi darllen y Llyfrynnau Canllaw, cliciwch y botwm Dechrau i ddechrau.



## Cyflwyniad


Dyma’r dudalen gyflwyno sy’n rhoi yr wybodaeth am gynllun Grantiau Bach – Effeithlonrwydd.




Unwaith eich bod wedi darllen yr wybodaeth cliciwch ar y botwm Nesaf

## Datganiad Preifatrwydd

Ar dudalen y Datganiad Preifatrwydd rydym yn amlinellu eich hawliau a’r hyn mae’n bosibl y bydd rhaid inni ei wneud gyda’ch gwybodaeth er mwyn prosesu eich cais. Rhaid ichi ddarllen y Datganiad Preifatrwydd



- Cyflwyniad ✔
- Hysbysiad Preifatrwydd
- Cymhwysedd ✔
- Dewiswch Eitemau ✔
- Cyflwyno

O dan ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl wneud y canlynol:

- gweld y data personol sydd gan Lywodraeth Cymru amdanoch
- gofyn inni gywiro unrhyw ddata anghywir
- gwrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data (dan rai amgylchiadau)
- gofyn i'ch data gael eu dileu (dan rai amgylchiadau)
- cyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef y rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth sydd gan Lywodraeth Cymru a sut mae'n cael ei defnyddio, neu os ydych am ymarfer eich hawliau o dan GDPR, mae'r manylion cyswllt isod:

Swyddog Diogelu Data:

Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

Cyfeiriad e-bost: dataprotectionofficer@llyw.cymru

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth – Cymru

Yr Ail Lawr, Tŷ Churchill
Ffordd Churchill
Caerdydd
CF10 2HH

Ffôn: 0330 4146421

Wefan: https://cy.ico.org.uk/


Os oes gennych gwestiynau am y datganiad preifatrwydd hwn, cysylltwch â'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid RPW.

https://llyw.cymru/hysbysiad-preifatrwydd-grantiau-llywodraeth-cymru


Printio | English | Gadael | Yn ôl | Safio | Nesaf

## Cwestiynau Pwy sy'n Gymwys

Mae'n rhaid ichi ateb pob cwestiwn ar y dudalen hon.





Mae'r system yn archwilio data sylfaenol ar y dudalen hon a bydd gwallau neu negeseuon gwybodaeth yn ymddangos wedi ichi glicio 'Safio' neu 'Nesaf'.





Unwaith eich bod wedi ateb pob cwestiwn cliciwch ar y botwm Nesaf


# Dewiswch Eitemau

Cyn dewis eich eitemau, gwnewch yn siwˆr eich bod wedi darllen Atodiad A Grantiau Bach – Effeithlonrwydd: Rhestr o Eitemau Cyfalaf Cymwys. Bydd hyn yn rhoi’r manylebau ichi; y gost a’r sgôr ar gyfer pob eitem.





.




Pan fyddwch chi wedi dewis eitem o'r gwymplen bydd yn ymddangos yma. Nodwch faint o'r eitem rydych chi am wneud cais amdanyn nhw. Cewch dynnu eitem drwy glicio ar y botwm Canslo.


Pan fyddwch chi wedi nodi nifer ar gyfer eitem, cliciwch ar y botwm Safio ac Yn ôl i fynd yn ôl i'r dudalen Dewis Eitemau.

I ychwanegu eitem arall cliciwch ar y botwm 'Ychwanegu Eitem'





Unwaith yr ydych wedi dewis pob un o'ch eitemau cliciwch ar y botwm Nesaf.

Os ydych yn dewis yr un eitem o'r gwymplen ddwywaith byddwch yn gweld y neges gwall isod





I ddatrys y gwall hwn dileu un o'r rhesi ac addasu'r rhes sydd ar ôl i gywiro'r ffigur.





Mae y neges wybodaeth hon yn cadarnhau mai £15,000 yw'r grant uchaf sydd ar gael ar gyfer Grantiau Bach - Effeithlonrwydd, os ydych yn mynd dros y gwerth hwn bydd eich cais yn cael ei ariannu'n rhannol hyd at y £15,000 sydd ar gael.

## Tudalen Gyflwyno – Gwallau, Gwybodaeth a Chrynodeb

Mae hyn yn rhoi crynodeb o'r eitemau yr ydych wedi'u dewis ac yn eich hysbysu o unrhyw wallau neu negeseuon gwybodaeth ar eich cais.





Bydd tudalennau gyda gwallau yn dangos croes goch a gallwch dychwelyd i'r tudalennau i wneud newidiadau drwy glicio yma.




Unwaith y byddwch wedi gwirio'r crynodeb ac wedi cywiro unrhyw wallau cliciwch ar y botwm Nesaf.

# Tudalen Gyflwyno – Datganiadau ac Ymrwymiadau

Mae'n rhaid ichi ddarllen y Datganiadau ac Ymrwymiadau a **thiciwch** y blwch i gadarnhau eich bod wedi eu darllen a'ch bod yn cytuno â nhw.



Grantiau Bach - Effeithlonrwydd - Datganiad o Ddiddordeb

Help

- Cyflwyniad
- Hysbysiad Preifatrwydd
- Cymhwysedd
- Dewiswch Eitemau
- Cyflwyno
  - Camgymeriadau, Gwybodaeth a Chrynodeb
  - Datganiadau ac Ymrwymiadau
  - Cyflwyno

Datganiadau ac Ymrwymiadau

Yn ôl | Safio | Nesaf

Os ydych yn derbyn y datganiadau a'r ymrwymiadau, ticiwch y bocs.

Rwy'n cadarnhau fy mod wedi darllen a deall Rheolau a Nodiadau Canllaw perthnasol y Cynllun ac yn caniatáu i Lywodraeth Cymru ddefnyddio fy ngwybodaeth i gefnogi fy nghais.

Rwy'n ymrwymo i fodloni unrhyw rwymedigaethau statudol megis Iechyd a Diogelwch cyflogaeth; hylendid; rheoli a diogelu'r amgylchedd; iechyd a lles anifeiliaid neu gnydau sy'n gymwys yn ystod cyfnod y prosiect hwn.

Deallaf y gallai fod angen i Lywodraeth Cymru ddiweddaru'r rheolau a'r amodau er mwyn ystyried y newidiadau a wnaed i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Rwy'n cytuno i gadw at unrhyw newidiadau yn dilyn hysbysiad gan Weinidogion Cymru.

Rwy'n cytuno i gydymffurfio â'r holl gyfreithiau neu reoliadau neu gyfarwyddebau domestig neu ryngwladol perthnasol.

Rwyf wedi rhoi manylion sy'n wir, yn gywir ac yn gyflawn hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred ar y cais hwn ac unrhyw ddogfennau ategol.

Rwy'n cadarnhau bod yr holl fanylion sydd wedi'u llenwi ymlaen llaw yn gywir neu wedi'u diwygio os ydynt yn anghywir.

Rwy'n ymrwymo i hysbysu Llywodraeth Cymru am unrhyw gais arall am gymorth grant ar gyfer y prosiect hwn.

Yr wyf yn cydnabod na fydd Llywodraeth Cymru nac unrhyw gynghorydd a benodir gan Lywodraeth Cymru yn gyfrifol am unrhyw gyngor a roddir, gan gynnwys heb gyfyngu unrhyw gyngor a roddir mewn perthynas â'r cais hwn neu'r cynllun datblygu busnes, ac mai myfi sydd yn unig yn gyfrifol am yr holl benderfyniadau busnes a wneir.

Rwy'n ymrwymo i hysbysu Llywodraeth Cymru am unrhyw newidiadau i'r manylion a ddarperir yn rhan Manylion yr Ymgeisydd o'r ffurflen.

Deallaf fod Llywodraeth Cymru yn arddangos negeseuon 'Gwall' a 'Gwybodaeth' yn adrannau'r cais fel cymorth i gwblhau a chyflwyno'r cais yn unig.

Byddaf yn caniatáu i swyddogion Llywodraeth Cymru neu eu hasiant awdurdodedig, gael mynediad i dir ac arolygu tir ac unrhyw offer, cyfleusterau a'r holl gofnodion a gwybodaeth berthnasol sydd eu hangen i sefydlu fy nghymhwyster a chywirdeb yr wybodaeth a ddarperir ar gyfer gwneud y cais hwn.

Rwy'n gynhyrchydd cynnyrch amaethyddol cynradd.

Rwy'n ymrwymo i gael caniatâd cynllunio bo'i angen.

Rwy'n cadarnhau nad yw'r eitemau sy'n destun y cais hwn wedi'u darpary trwy hawliad yswiriant.

Rwy'n cydnabod y caiff y grant ei dalu yn unol ag amodau a thelerau'r cynllun ac rwy'n ymrwymo gyda Llywodraeth Cymru i gydymffurfio â'r amodau hyn.

**Deallaf:**

Efallai y bydd angen i Lywodraeth Cymru rannu rhywfaint o wybodaeth am fy nghais Grantiau Bach – Effeithlonrwydd - Datganiad o Ddiddordeb gyda sefydliadau eraill ac rwy'n cytuno i unrhyw ddatgeliadau neu gyfnewid gwybodaeth angenrheidiol.

Gall Llywodraeth Cymru hefyd gael gwybodaeth amdanaf gan rai sefydliadau eraill, neu ddarparu gwybodaeth amdanaf iddynt er mwyn gwirio cywirdeb yr wybodaeth, atal neu ganfod trosedd a diogelu arian cyhoeddus. Mae'r sefydliadau eraill hyn yn cynnwys adrannau'r llywodraeth, awdurdodau lleol a chyrff eraill fel y bo'n briodol.

Bydd cyhoeddi a datgelu gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru yn unol â'r rhwymedigaethau a'r dyletswyddau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 2018, a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004, neu Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.Gellir datgelu gwybodaeth arall a ddarperir hefyd pan ganiateir hynny yn ôl y gyfraith.

**RHYBUDD – Gall unrhyw berson sy'n gwneud datganiad ffug neu sy'n methu â hysbysu Llywodraeth Cymru am newid perthnasol i'r wybodaeth a roddir yn y cais hwn fod yn agored i erlyniad. Gall datganiad ffug, anghywir neu anghyflawn neu fethiant i hysbysu Llywodraeth Cymru am unrhyw newidiadau perthnasol i'r wybodaeth a roddir yn y cais hwn arwain at derfynu contract a/neu adennill unrhyw Daliadau.**


Rwyf yn cytuno i'r datganiadau a'r ymrwymiadau uchod * ☑

Printio | English | Gadael | Yn ôl | Safio | Nesaf

Unwaith eich bod wedi darllen a chytuno â'r Datganiadau a'r Ymrwymiadau cliciwch ar y botwm Nesaf.

## Tudalen Gyflwyno –Cyflwyno

I gyflwyno eich Datganiad Diddordeb ar gyfer Grantiau Bach – Effeithlonrwydd cliciwch ar y botwm Cyflwyno.




Unwaith y byddwch wedi cyflwyno, byddwch yn derbyn cadarnhad y gallwch ei argraffu ar gyfer eich cofnodion eich hun.